OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 No. 105

# Rheoliadau Deddf Safonau Gofal 2000 (Hysbysu) (Cymru) 2011

**Hysbysiadau o dan adran 30A(3) o'r Ddeddf**

**3.** Dyma'r wybodaeth ynghylch person sy'n rhedeg neu'n rheoli sefydliad neu asiantaeth ('P') y mae'n rhaid i'r awdurdod cofrestru ei rhoi i bob awdurdod lleol yn yr amodau a bennir—

(a) pan fo hysbysiad wedi ei gyflwyno i P o dan adran 30A(2)(a) (hysbysiad o benderfyniad i fabwysiadu cynnig o dan adran 17(4)(a) o'r Ddeddf) a phan yw P wedi apelio yn erbyn yr hysbysiad hwnnw —

(i) y ffaith bod P wedi apelio yn erbyn yr hysbysiad hwnnw; a

(ii) canlyniad apêl P.

(b) o ran hysbysiad a gyflwynwyd i P o dan adran 30A(2)(aa) neu (ab) o'r Ddeddf (penderfynu i fabwysiadu neu hysbysiad i atal dros dro neu i ymestyn yr ataliad dros dro) a phan yw P wedi apelio yn erbyn yr hysbysiad hwnnw —

(i) y ffaith bod P wedi apelio yn erbyn yr hysbysiad hwnnw; a

(ii) canlyniad apêl P.

(c) o ran hysbysiad a gyflwynwyd i P o dan adran 30A(2)(b) o'r Ddeddf (hysbysiad o achos am dramgwydd perthnasol) —

(i) canlyniad yr achos yn erbyn P am y tramgwydd perthnasol hwnnw; a

(ii) pan yw P wedi apelio yn erbyn y canlyniad hwnnw, canlyniad yr apêl.

(ch) o ran hysbysiad a gyflwynwyd i P o dan adran 30A(2)(c) o'r Ddeddf (hysbysiad yn cyfyngu ar leoedd mewn sefydliadau penodol o dan adran 22B o'r Ddeddf) —

(i) y ffaith bod P wedi apelio yn erbyn yr hysbysiad hwnnw; a

(ii) canlyniad apêl P.